Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | Wrexham Glyndŵr University L

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Glyndŵr a gynhaliwyd **ddydd Gwener, 5 Mawrth 2021** am 8.45am trwy fideo gynadledda.

**Presennol**

Mr Jim Barclay
Mr Paul Barlow
Ms Ebony Banks
Mrs Laura Gough
Yr Athro Maria Hinfelaar
Mr Colin Heron
Mrs Claire Homard
Mrs Celia Jenkins
Yr Athro Sandra Jowett
Mr Paul McGrady
Dr Jayne Mitchell
Mrs Judy Owen
Ms Maxine Penlington (Cadeirydd)
Mr Askar Sheibani *[Eitemau 20.45 i 20.52,20.63 a 20.64]*
Mr David Sprake
Mr David Subacchi
Ms Chloe Williams

**Swyddogion:**

Mrs Val Butterworth *(Clerc y Bwrdd)*
Mr David Elcock *(Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid) [Eitemau 20.45 i 20.53,20.63 a 20.64]*
Mr Pete Gibbs *(Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol*)
Dr Aulay Mackenzie *(PVC Partnerships)*
Mrs Lynda Powell *(Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau*)
Yr Athro Claire Taylor *(Dirprwy Is-Ganghellor)*
Mr James Dawson *(Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr) [Eitemau 20.56 a 20.64 yn unig]*

| **20.45** | **Arolwg Ymgysylltu gyda Staff 2020** | |
|---|---|---|
| | **Derbyniwyd:**<br>Cyflwyniad sleidiau a ddarparwyd i'r staff a'r Pwyllgor Adnoddau Dynol.<br><br>**Cyflwyniad:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol grynodeb gweithredol canlyniadau'r arolwg ymgysylltu gyda staff 2020. Roedd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar yr hyn roedd y canlyniadau'n ei ddweud wrth uwch reolwyr a'r Bwrdd am ddiwylliant y Brifysgol a sut mae gwerthoedd y Brifysgol yn cael eu cyfleu. Roedd y cynnydd mwyaf arwyddocaol mewn sgorau'n ymwneud â rhyngweithio ac ymgysylltu cydweithwyr gyda'i gilydd – rhannu arfer dda, er enghraifft.<br><br>Gwnaeth yr aelodau ganmol dull systemataidd a thrwyadl yr uwch reolwyr yn adnabod y materion a oedd angen ymdrin â nhw. Roedd hyn wedi cynnwys rhai penderfyniadau anodd i sicrhau parhad cynaliadwyedd y sefydliad dros y blynyddoedd diwethaf, a oedd yn dangos cydnerthedd staff.<br><br>Roedd yn amlwg fod diwylliant cadarnhaol yn bodoli yn y Brifysgol a bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfraniad i lwyddiant y sefydliad. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfynwyd:**<br>NODI'R cyflwyniad a set lawn sleidiau'r cyflwyniad. | |
| **20.46** | **Croeso ac ymddiheuriadau** | |
| | Croesawyd aelodau i'r cyfarfod. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau ond nododd Mr Sheibani y byddai angen iddo adael am 11.00am. | |
| **20.47** | **Datgan buddiannau** | |
| | Nid oedd unrhyw ddatganiad gwrthdaro buddiannau gydag unrhyw eitem ar yr agenda. | |
| **20.48** | **Aelodaeth** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Cynnig i Mr Jim Barclay gael ei benodi i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn weithredol o 1 Ebrill 2020.<br>(ii) Gofynion sgiliau a phrofiad diwygiedig y Bwrdd Llywodraethwyr.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO penodiad Mr Jim Barclay i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid.<br><br>CYMERADWYO gofynion sgiiau a phrofiad diwygiedig y Bwrdd. | |
| **20.49** | **Cofnodion** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2020.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>Bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2020 yn gofnod gwir a chywir y cyfarfod. | |
| **20.50** | **Materion yn codi** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad materion yn codi a ddarparwyd gan y Clerc.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **20.51** | **Adroddiad yr Is-Ganghellor** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad gan yr Is-Ganghellor.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd yr Is-Ganghellor ddiweddariad i'r Bwrdd ynghylch ystod o faterion yn deillio o'i hadroddiad yn cynnwys: arwyddion cyllideb Addysg Uwch Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22 a fyddai'n gweld cynnydd yng nghyllid Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru; a pharhad y cyllid cyfalaf £10m i'r sector. Tynnwyd sylw at y cyllid £40m i'r sector i roi cymorth i fyfyrwyr sy'n wynebu caledi ariannol yn ystod y pandemig. Roedd y Brifysgol yn gweithio'n galed i wynebu'r dyddiad cau heriol i ddyrannu gwario o'i chyfran o'r £40m erbyn 31 Mawrth. Byddai peth yn cael ei ddyrannu'n ôl-weithredol yn erbyn gwariant yn y meysydd blaenoriaeth cyllido.<br><br>Roedd yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r Comisiwn Addysg Drydyddol yn dangos y byddai'n debygol o fod yn 2024 cyn i'r Comisiwn fod yn weithredol. Byddai'r ddolen i ganlyniadau'r ymgynghori ar y Bil drafft yn cael ei rhannu. | **MH** |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd pryderon ynghylch sut y byddai cynigion y Swyddfa Fyfyrwyr ynghylch llinellau sylfaen isafswm rhifiadol ar gyfer deilliannau myfyrwyr a meddylfryd y llywodraeth sy'n dod i'r amlwg ynghylch graddau mynediad isafswm yn effeithio'n negyddol ar ledaenu cyfranogiad prifysgolion. Tra bo'r cynigion deilliannau myfyrwyr yn berthnasol i Loegr byddai canlyniadau anfwriadol i brifysgolion yng Nghymru. Roedd yr Is-Ganghellor wedi trafod y mater gydag Aelodau Seneddol lleol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad yr Is-Ganghellor. | |
| **20.52** | **Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Llywydd ac Is-lywydd yr Undeb Myfyrwyr yr adroddiad ar y cyd gan dynnu sylw at y gwaith a'r gweithgareddau a wnaed ers yr adroddiad diwethaf.<br><br>Cyflwynwyd 'Sgwrs Myfyrwyr' yn lle'r Grŵp Ymgynghorol Myfyrwyr, er mwyn cyrraedd yr holl fyryrwyr, yn cynnwys y rhai mewn sefydliadau partner, yn yr amgylchedd ar-lein; a thynnu sylw at yr heriau a'r cyfleoedd a oedd wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i bandemig Covid-19. Roedd cyfnod prawf 3 mis yr ap Umii gyda'r nod o gynorthwyo myfyrwyr i wneud cysylltiadau mewn lleoliad ar-lein diogel yn cael ei ddechrau a byddai pa mor ddefnyddiol y byddai ar gyfer ei ddefnyddio yn y dyfodol yn cael ei asesu ar ddiwedd y cyfnod prawf.<br><br>Ers cyflwyno'r adroddiad roedd yr Undeb Myfyrwyr wedi gwario oddeutu £35k o'r cyllid CCAUC £50k ar amrediad o weithgareddau i gefnogi myfyrwyr a thynnwyd sylw at rai o'u digwyddiadau llwyddiannus.<br><br>Roedd y broses etholiadau ar gyfer swyddogion rhan amser ac amser llawn wedi agor a sefydlwyd tair swydd swyddogion rhan amser newydd: Swyddog Pobl Dduon a Lleifrif Ethnig, Swyddog Myfyrwyr mewn Sefydliadau Partner a Swyddog Graddau Prentisiaeth. Byddai cynigion ar gyfer dwy swydd swyddogion rhan amser arall yn cael eu rhoi gerbron y Cyngor Myfyrwyr nesaf: Swyddog Ar-lein Prifysgol Glyndŵr a Swyddog Lles a Chynhwysiant. Byddai'r etholiadau'n cael eu cynnal ar-lein fel arfer.<br><br>Roedd Canghellor y Brifysgol wedi cytuno i gyflwyno rhai o Wobrau'r Undeb Myfyrwyr eleni.<br><br>Mae'r Undeb Myfyrwyr wedi blaenoriaethu cryfhau ymgysylltu gyda myfyrwyr mewn sefydliadau partner a bellach mae'r Is-lywydd a'r Cydlynydd Llais Myfyrwyr yn aelodau'r Pwyllgor Partneriaethau Academaidd.<br><br>Roedd yr aelodau'n falch o weld y gweithio mewn partneriaeth agos rhwng yr Undeb Myfyrwyr a'r Brifysgol i roi cymorth i fyfyrwyr yng ngogledd ddwyrain Cymru a sefydliadau partner.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **20.53** | **Adroddiad Rheoli Ariannol** | |
| | **Derbyniwyd:** | |

Adroddiad Rheolaeth Ariannol hyd at 31 Ionawr 2021.

**Adroddwyd:**

**20.53.01 Adroddiad Rheolaeth Ariannol**
Roedd y Brifysgol yn parhau ar y trywydd cywir i gyflawni gwarged grŵp wedi gwella ychydig erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd y ffactorau allweddol a gyfrannodd at y gwelliant yn y sefyllfa yn cynnwys: gwella perfformiad Addysg Drawswladol a gweithgareddau partneriaid rhyngwladol; disgwyl derbyn taliad oherwydd Yswiriant Tarfiad Busnes; a chyllid i gwmpasu swyddi sy'n bodoli eisoes. Cafodd y rhain eu gwrthosod yn erbyn lleihad yng ngwarged Glyndwr Innovations Ltd oherwydd llai o weithgarwch masnachol a chostau gwerthiannau. Roedd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru wedi sicrhau cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru o Ebrill 2021 tan Mawrth 2022 a'r rhagolygon yn awr oedd y byddai'n cydbwyso'r fantolen yn 2020/21.

Roedd y perfformiad yn gadarnhaol yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ariannol. Roedd y sefyllfa arian parod a hylifedd yn parhau'n iach. Roedd cydymffurfio gyda chyfamodau'n parhau i fod yn dda. Nid oedd unrhyw ragfynegiad o angen sicrhau cyfleusterau cyfalaf gweithiol yn ystod 2020/21 na 2021/22 ar hyn o bryd.

Yn dilyn yr apêl cynllunio llwyddiannus ynghylch safle Gatewen rhagwelir y bydd y dderbynneb gyfalaf am ei werthu'n cael ei derbyn yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Roedd gweithdrefnau caffael yn eu lle i gyflawni'r gwaith cyfalaf cynlluniedig ar gampws Plas Coch ac yn Stryt y Rhaglaw; a bu rhai costau ychwanegol yn ymwneud â'r apêl cynllunio ar safle Ffordd y Deon/Holt.

Roedd cyflawni credydau rhan amser yn parhau'n her oherwydd cyfyngiadau ar y modelau darparu wyneb yn wyneb arferol. Roedd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid wedi gofyn am gyflwyno trosolwg o'r gwaith a oedd yn cael ei wneud i gyflawni targed rhan amser 2020/21 yn eu cyfarfod ym mis Ebrill.

**JO/DE**

Canmolodd Cadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yr adroddiad clir a byddai'n ceisio eglurhad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid sut mae'r contractau GIL yn cael eu dangos yn y cyfrifon o ran prynu deunyddiau crai ar gyfer prosiectau nad ydynt yn dechrau tan y flwyddyn academaidd ganlynol mewn rhai achosion.

**20.53.02 Ailgyllido benthyciad**
Mae banc Triodos yn cynnal eu gwaith diwydrwydd dyladwy ac maen nhw a'r Tîm Cyllid yn gweithio gynted ag y bo'n bosibl i sicrhau fod y dogfennau'n eu lle i sicrhau cynnig benthyciad credyd erbyn diwedd Ebrill. Roedd yr Archwilwyr Allanol yn cael eu hysbysu am y cynnydd yn rheolaidd.

**20.53.02 Datganiadau ariannol archwiliedig 2019/20**
Anfonwyd neges at yr aelodau ynghylch cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol i CCAUC yn hwyr oherwydd yr angen i ddatrys y mater ailgyllido benthyciad gyda llofnodi'n derfynol gan yr archwilwyr allanol. Roedd y Pwyllgor Archwilio'n gyfforddus gyda'r dull oedd yn cael ei weithredu. Roedd y datganiadau ariannol drafft wedi'u rhannu gyda CCAUC ac mae'n ymwybodol o'r rhesymau am yr oedi.

**Penderfynwyd:**
NODI'R adroddiad.

| | | |
|---|---|---|
| | CADARNHAU'R dull sy'n cael ei weithredu o ran adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol drafft 2019/20. | |
| **20.54** | **Gweledigaeth a Strategaeth 2025** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Gweledigaeth a Strategaeth 2025 ddiwygiedig.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Amlinellodd yr Is-Ganghellor y cyd-destun ar gyfer yr adolygiad a'r meysydd a oedd wedi'u haddasu i esbonio cenhadaeth a phwrpas y Brifysgol yn well. Roedd y gwerthoedd yn parhau heb eu newid gan eu bod wedi profi i fod yn hanfodol o ran sut y gwnaed penderfyniadau, yn enwedig o ran hysbysu'r ffordd orau o gefnogi myfyrwyr a staff.<br><br>Cynhwyswyd barn y Bwrdd yn deillio o Ddiwrnod Strategaeth mis Hydref a mewnbynnau gan staff trwy gyfrwng grwpiau ffocws.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO'R Weledigaeth a Strategaeth 2025 ddiwygiedig. | |
| **20.55** | **Diweddariad Campws 2025** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Diweddariad ynghylch datblygiadau Campws 2025.<br>(ii) Fersiwn ddrafft y cynllun cyllido ac amserlen cyflawni.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Yn dilyn yr apêl cynllunio ar gyfer safle Gatewen, gwahoddwyd ceisiadau gan y farchnad erbyn 30 Ebrill 2021. Byddai'r Adroddiad Elusennau perthnasol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd maes o law i gefnogi'r cais i gymeradwyo gwerthu'r safle.<br><br>Trefnwyd gwrandawiad rhithiol ar gyfer yr apêl cynllunio ynghylch safle Ffordd y Deon/Holt ar 27 Ebrill.<br><br>Byddai canlyniad y cais i Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn cael effaith arwyddocaol ar Campws 2025; ac mae'r Grŵp Llywio Campws yn parhau i gynnal trafodaethau ynghylch amserlen y prosiectau cyfalaf ystadau.<br><br>Croesawodd yr aelodau'r amserlen a oedd yn eu hatgoffa am y cynnydd rhagorol a wnaed yn datblygu'r Campws.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **20.56** | **Cynllun Ffioedd a Mynediad 2021/22** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar y diwygiadau'n ofynnol i'r Cynllun Ffioedd a Mynediad 2021/22 yn dilyn adborth gan CCAUC.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO'R diwygiadau a llofnodi'r Cynllun Ffioedd a Mynediad diwygiedig gan Gadeirydd y Bwrdd i'w gyflwyno i CCAUC. | |
| **20.57** | **Adroddiad y Cadeirydd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Nodiadau'r Diwrnod Datblygu Llywodraethwyr a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2020. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Adroddwyd:**<br>Adroddodd y Cadeirydd y byddai'r sylwadau o'r diwrnod datblygu ynghylch mwy o ddirprwyo i bwyllgorau a'r cydbwysedd rhwng cydymffurfio a thrafodaethau strategol yn cael eu trin fel rhan o'r adolygiad effeithiolrwydd nesaf. Roedd y cylch gwaith ar gyfer yr adolygiad effeithiolrwydd ar fin cael ei ystyried gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ym mis Ebrill.<br><br>Byddai dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau ar gyfer 2021/22 yn cael eu dosbarthu gan y Clerc yn fuan.<br><br>Roedd cyfarfodydd gyda Grŵp Arweiniad Addysg Uwch Cymru'n cael eu cynnal yn wythnosol. Roedd y Grŵp yn aros am adolygiad nesaf Llywodraeth Cymru ynghylch mesurau Covid-19, fel maen nhw'n berthnasol i Addysg Uwch, i ddarparu'r canllawiau diweddaraf. Roedd y Grŵp yn ystyried datblygu canllawiau'n rhagweithiol ar gyfer 2021/22.<br><br>Roedd y Cadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid wedi cael cyfarfod buddiol gyda chadeirydd annibynnol newydd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru Cyf. gan drafod y berthynas rhwng yr is-gwmni a'r Bwrdd Llywodraethwyr.<br><br>Byddai'r Cadeirydd yn arsylwi digwyddiad dilysu'r rhaglenni MA/BA Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol ar 22 Mawrth.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **20.58** | **Adroddiad gan y Bwrdd Academaidd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 17 Chwefror 2021.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnodd yr Is-Ganghellor sylw at yr adolygiad gofynion mynediad i israddedigion, fel y crybwyllwyd yn yr adroddiad, yn dilyn adolygiad arferion cystadleuwyr. Roedd hyn wedi arwain at gymeradwyo cyflwyno graddfa symudol pwyntiau UCAS ar gyfer mynediad i raglenni israddedig o fis Medi 2022.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **20.59** | **Cylchlythyrau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar rôl CCAUC fel y corff Trosolwg Addysg, barn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi'i ailddatgan o ran Cyfraith Diogelu Defnyddwyr yng nghyswllt Addysg Uwch, ac adolygiad Cod Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Staff y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **20.60** | **Pwyllgorau'r Bwrdd** | |
| | **20.60.01 Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2020 a 28 Ionawr 2021.<br>(ii) Mapio arfer llywodraethu yn erbyn Cod Ymarfer Llywodraethu y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (Medi 2020) ac argymhellion cysylltiedig. | |

| | | |
|---|---|---|
| | (iii) Datganiad diwygiedig Prif Gyfrifoldebau.<br>(iv) Canllawiau ynghylch Annibyniaeth i Lywodraethwyr.<br>(v) Templed yr Adroddiad Blynyddol.<br>(vi) Datganiad y Bwrdd ynghylch defnyddio data meincnodi/cymharol.<br>(vii) Canllawiau Annibyniaeth i Lywodraethwyr.<br>(viii) Templed Adroddiad Blynyddol diwygiedig.<br>(ix) Datganiad ynghylch defnyddio data meincnodi/cymharol.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ddau argymhelliad a wnaed yng nghyswllt Cod Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion. Eglurwyd mai, ymhlith y rhesymau am beidio â phenodi Uwch Lywodraethwr Annibynnol ar hyn o bryd, oedd y potensial i holi Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Nid oedd hyn wedi'i nodi mewn proses ysgrifenedig ffurfiol ond byddai'n ddewis ar gael i'r aelodau pe na byddent yn dymuno trafod mater gyda'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd neu'r Clerc.<br><br>**Penderfynwyd:**<br><br>NODI adroddiad y cyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr ac Ionawr.<br><br>NODI fod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfodydd 10 Rhagfyr a 28 Ionawr wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.<br><br>CYMERADWYO:<br>• y ddogfen mapio fel adlewyrchiad cywir o arferion y Bwrdd sy'n bodloni gofynion Cod Ymarfer Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (2020);<br>• mabwysiadu Cod Ymarfer Addysg Uwch diwygiedig y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion;<br>• datblygu cynllun i gynnal dadansoddi ac ystyried canlyniadau gwahaniaethaol arwyddocaol gan grwpiau gyda nodweddion wedi'u diogelu unwaith y bo'r Brifysgol yn dychwelyd i weithredu'n fwy normal yn dilyn y pandemig Covid-19;<br>• nad yw rôl Uwch Lywodraethwr Annibynnol yn angenrheidiol ar hyn o bryd; ond y dylai Cadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn y dyfodol feddu ar y rôl *de facto* llywodraethiant;<br>• mabwysiadu'r Datganiad Prif Gyfrifoldebau enghreifftiol, gyda diwygiadau;<br>• mabwysiadu'r Canllawiau Annibyniaeth i Lywodraethwyr;<br>• mabwysiadu templed yr Adroddiad Blynyddol a fydd yn weithredol ar gyfer adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol archwiliedig 2020/21; a<br>• y datganiad ar ddefnyddio data meincnodi/cymharol. | |
| | **20.60.02 Pwyllgor Adnoddau Dynol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2021.<br>(ii) Gweithdrefn Cwynion Cyflogaeth ar gyfer Deiliaid Uwch Swyddi<br>(iii) Gweithdrefn Ddisgyblu ar gyfer Deiliaid Uwch Swyddi<br><br>**Adroddwyd:**<br>Amlinellodd Cadeirydd y Pwyllgor y diwygiadau a wnaed i'r gweithdrefnau Deiliad Uwch Swydd. Mân newidiadau oedd y rhain, yn cynnwys defnyddio iaith niwtral o ran rhywedd, cyfeirio at Safonau'r Gymraeg a rhai pwyntiau eglurhad ynghylch cael cydymaith. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Croesawyd penderfyniad y Brifysgol i gomisiynu adolygiad trydydd parti o ran diogelwch tân yn ei lety myfyrwyr, yn dilyn adolygu arferion da yn y sector.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2021.<br><br>NODI fod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 11 Chwefror 2021 wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.<br><br>CYMERADWYO'R gweithdrefnau Cwynion Cyflogaeth a Disgyblu ar gyfer Uwch Ddeiliaid Swydd. | |
| | **20.60.03 Pwyllgor Strategaeth a Chyllid** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiadau'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2020, 26 Ionawr a 12 Chwefror 2021.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiadau'r cyfarfodydd a gynhaliwyd yn Rhagfyr, Ionawr a Chwefror.<br><br>NODI fod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfodydd Rhagfyr, Ionawr a Chwefror wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd. | |
| | **20.60.04 Is-gwmnïau** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion:<br>(i) Cyfarfod Gwyddoniaeth Gogledd Cymru 28 Ionawr 2021<br>(ii) Cyfarfod Glyndwr Innovations Ltd 4 Chwefror 2021<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R cofnodion. | |

Diwedd